# Adroddiad Blynyddol Panel Rhiant Corfforaethol

# 2022-2023

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae’r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o waith y Panel Rhiant Corfforaethol dros y cyfnod Ebrill 2022 hyd at Mawrth 2023, gan amlinellu’r hyn a gyflawnwyd gan y Cyngor ei hun, ac mewn partneriaeth ag eraill.

1.2. Mae’r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am niferoedd plant mewn gofal; y gefnogaeth a roddir gennym i blant mewn gofal; rhannu gwybodaeth am weithrediad y panel dros y flwyddyn ddiwethaf; ac yn amlinellu'r bwriad ar gyfer y dyfodol.

## 2. Pwrpas y Panel

2.1. Mae gan Gyngor Gwynedd a’i bartneriaid rôl a chyfrifoldebau statudol i weithredu fel rhieni corfforaethol ar gyfer plant mewn gofal.

2.2. Mae plant a phobl ifanc yn dod i ofal y Cyngor o dan amgylchiadau anodd iawn, ond mae’r Cyngor yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Y dymuniad yw eu bod yn byw bywyd mor hapus â phosib. Mae gan unrhyw blentyn sydd yn cael ei ofalu amdano gan y Cyngor yr hawl i ddisgwyl yr un peth gan ei riant corfforaethol ag a fyddai unrhyw blentyn arall yn ei ddisgwyl gan riant da.

2.3. Mae hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn:

- Adnabod eu hanghenion, eu talentau a’u breuddwydion, ac yn hyrwyddo eu buddiannau;
- Dal uchelgais uchel am eu dyfodol ac yn disgwyl y gorau ganddynt ac ar eu cyfer;
- Cymryd diddordeb yn eu llwyddiannau a'u problemau a dangos balchder yn eu llwyddiannau a dathlu gyda nhw;
- Gwrando ar eu barn a sicrhau bod hyn yn dylanwadu ar ymarfer, datblygiadau gwasanaethau a pholisïau;
- Sicrhau eu bod yn rhan o gynllunio eu bywydau ac yn ymgynghori a hwy ynglŷn â’u dewisiadau;
- Cydnabod, cefnogi a pharchu eu hunaniaeth ymhob ffordd;
- Hyrwyddo a chefnogi cyflawniad addysgol i orau eu gallu gan sicrhau mynediad at addysg o safon uchel a chyfleoedd dysgu eang;
- Cefnogi eu gwydnwch iechyd a lles emosiynol;
- Darparu cartref diogel a sefydlog lle bo ymdeimlad o berthyn a gwerthfawrogiad yn bodoli;
- Cefnogi eu siwrne o fod yn blant i oedolion a hyrwyddo eu potensial economaidd a’u paratoi i fod yn drigolion cyfrifol sydd yn cyfrannu i’r gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

2.4. Er mwyn cynnal y swyddogaeth hon, mae’r Cyngor wedi sefydlu Panel Rhiant Corfforaethol. Mae gan y Panel gyfrifoldeb penodol ac uniongyrchol i sicrhau bod gwasanaethau aml-asiantaeth priodol ac addas ar gael i blant mewn gofal, a bod y gwasanaethau a gynigir iddynt o ansawdd uchel, yn hygyrch ac yn cwrdd â’u

hanghenion, gan gydweithio gyda phartneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bob plentyn sydd mewn gofal.

2.5. Mae Aelodaeth y Panel Rhiant Corfforaethol yn cynnwys:

- Aelod Cabinet yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Aelod Cabinet Addysg
- Prif Weithredwr
- Cyfarwyddwr Corfforaethol
- Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaeth Cymdeithasol (arddelir rôl Cyfarwyddwr Arweiniol Plant a Phobl Ifanc hefyd)
- Pennaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Pennaeth Addysg
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr

2.6. Drwy'r Panel mae'r Cyngor, sef yr holl aelodau etholedig, yn dirprwyo ei gyfrifoldeb yn y maes i'r Aelod Cabinet dros Blant a Cefnogi Teuluoedd.


## 3. Trosolwg o'r flwyddyn a fu

3.1. Cyflwynir yr wybodaeth isod ar sail ffigyrau diwedd chwarter pedwar 2023. Mae'n cynnwys ffigyrau cymharol o'r chwe blynedd flaenorol:


| Plant mewn gofal ar 31 Mawrth | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o blant mewn gofal ar ddiwedd y flwyddyn | 227 | 253 | 291 | 281 | 273 | 281 |
| Nifer o blant wedi dod i ofal yn ystod y flwyddyn | 49 | 66 | 82 | 46 | 46 | 59 |
| Nifer o blant wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn | 40 | 40 | 44 | 56 | 54 | 51 |
| Nifer o blant sy'n Geiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain | 1 | 1 | 1 | 0 | 3 | 15 |

3.2. Ar 31 Mawrth 2023 roedd **281** o blant mewn gofal, o gymharu efo **273** ddiwedd Mawrth 2022. Dros y flwyddyn felly gwelwyd cynnydd o ychydig llai na **3%.**

3.3. Fel y dengys y graff isod, o'r **281** plentyn oedd yn ein gofal ar ddiwedd Mawrth 2023, roedd **183** (65%) mewn lleoliadau maeth, **17** (6%) mewn lleoliadau preswyl a **63** (22%) wedi eu lleoli gyda'u rhieni. Roedd **2** plentyn mewn lleoliadau mabwysiedig ar ddiwedd y chwarter gyda **15** person ifanc yn byw yn annibynnol gyda chefnogaeth.




3.4. Fel dengys y graff isod, ar ddiwedd y flwyddyn roedd **197** (**70%**) o blant mewn gofal wedi eu lleoli yng Ngwynedd. Roedd **51** (**18%**) o blant wedi ei leoli yng Ngogledd Cymru, gyda **31** o'r plant yma wedi eu lleoli yn y siroedd agosaf (Môn a Chonwy). Mae **23** o blant wedi eu lleoli y tu allan i Gymru, gyda **4** o'r rhain mewn lleoliadau preswyl a'r gweddill naill ai wedi eu lleoli gyda rhieni neu berthnasau.




** Nid yw'r lleoliadau yma yn cael ei ddatgelu gan ei fod yn wybodaeth sensitif*

3.5. <u>Plant wedi dod i ofal yn ystod y flwyddyn</u>

3.5.1. Yn ystod y flwyddyn gyfan daeth **59** o blant mewn i ofal, o gymharu â **45** yn ystod 2021/22.


3.5.2. Noder fod y Cyngor wedi derbyn **15** Ceisiwr Lloches drwy Gynllun Trosglwyddo'r Swyddfa Gartref sydd wedi codi'r nifer eleni. Roedd ceiswyr lloches yn cynrychioli bron i **25%** o'r plant a ddaeth i ofal yn ystod y flwyddyn dan sylw.

3.5.3. Mae'r tabl isod yn dangos oedrannau'r plant ddaeth i ofal yn ystod 2022/23. Roedd **57%** o'r plant a ddaeth i ofal yn ystod y flwyddyn **o dan 5 oed**, gyda'r mwyafrif ohonynt wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant fel rhan o brosesau diogelu cyn dod i ofal. Mae hyn o ganlyniad i nifer o resymau, ond yn benodol, plant ifanc yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso; trais yn y cartref; camddefnyddio sylweddau; bwydo plant ifanc yn fwriadol gyda chyffuriau, a mamau sydd â phlant blaenorol wedi mynd i ofal yn beichiogi a heb wneud y newid angenrheidiol yn eu bywydau i fedru gofalu yn ddiogel am y plentyn.

| O dan 1 oed | 1 – 5 oed | 6 – 10 oed | 11 – 15 oed | 16+ |
|---|---|---|---|---|
| 17 | 16 | 4 | 12 | 9 |

3.6. Plant wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn

3.6.1. Yn ystod y flwyddyn gyfan fe aeth **51** o blant allan o ofal. Bu i **20** person ifanc droi'n ddeunaw oed, gyda **5** ohonynt yn aros gyda'u gofalwyr maeth o dan drefniant '*Pan Fyddai'n Barod'* a **3** yn trosglwyddo i wasanaethau Oedolion gydag anghenion cymhleth. Dychwelodd **6** plentyn yn ôl i ofal ei rhieni ar ôl cyfnodau byr mewn gofal. Diddymwyd gorchymyn gofal yn gyfan gwbl ar **11** plentyn. Gwnaethpwyd Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ar **10** plentyn (sy'n golygu nad ydynt bellach yn blant mewn gofal). Gwnaethpwyd Gorchymyn Mabwysiadu ar **4** blentyn yn ystod y cyfnod.



3.7. Cefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal

3.7.1. Yn ystod mis Chwefror 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod am lansio Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal trwy Gymru. Mae hwn yn ddatblygiad arwyddocaol iawn i'r bobl ifanc wrth iddynt ddechrau ar eu bywydau fel oedolion, a fydd yn rhoi incwm cyn treth o £1,600 y mis iddynt.

3.7.2. Daeth y Cynllun yn weithredol mis Gorffennaf 2022. Roedd **24** person ifanc yn gymwys ar ei gyfer, gyda **23** wedi dewis dod yn rhan o'r Cynllun. Roedd anghenion yr unigolyn oedd heb ymuno yn gymhleth ac roedd pecyn gofal dwys yn ei le ac felly ni fyddai yn well allan o ddilyn y Cynllun.

3.7.3. Tra bod pryder am gyfrifoldeb ariannol, cyllidebu a lefel bregusrwydd rhai o'r unigolion ar y Cynllun, nid yw'n ymddangos bod bod yn rhan o'r cynllun yn dylanwadu'n ormodol arnynt i newid eu sefyllfa byw. Hynny yw, i'r rhai hynny sydd mewn lleoliad maeth wrth droi'n ddeunaw oed, maent wedi aros yn eu lleoliad, gyda'r un peth yn wir am yr unigolion sy'n byw gyda'i rhieni. Mae'n ymddangos bod y Cynllun yn fuddiol iawn i'r bobl ifanc hynny sydd mewn trefniant addysg bellach.

3.7.4. Mae'r Cynllun yn cael ei fonitro gan Llywodraeth Cymru, gan mai cytundeb rhwng y Llywodraeth a'r person ifanc yw'r cynllun. Mae'r gwasanaeth yn mynychu cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru i fonitro gweithrediad ac yn hybu'r bobl ifanc i anfon gwybodaeth monitro yn ôl i'r Llywodraeth.

3.8. Gwasanaethau Trobwynt

3.8.1. Cynigia'r Cyngor wahanol haenau o gefnogaeth i deuluoedd - yn amrywio o'r Tîm o Amgylch y Teulu sy'n cydweithio â theuluoedd i ymyrryd yn gynnar pan fo problemau'n dod i'r amlwg (sy'n digwydd yn wirfoddol gyda chaniatâd) i gefnogaeth fwy dwys gan y Gwasanaethau Trobwynt sy'n cynnig ystod o ymyraethau i blant sydd ar fin dod i ofal.

3.8.2. Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 gweithiodd y Gwasanaethau Trobwynt gyda **208** o blant. Dechreuodd y tîm weithio gyda **110** o achosion newydd yn ystod y cyfnod.

3.8.3. Yn ystod y flwyddyn, daeth ymyrraeth y tîm i ben gyda **117** o blant. Roedd **69** o'r rhain yn byw gartref gyda'u rhieni heb orchymyn gofal ar gychwyn yr ymyrraeth. Ar ddiwedd yr ymyrraeth roedd **48** (**69%**) yn parhau i fyw gartref.

3.8.4. Yn ogystal, daeth ymyrraeth i ben mewn **16** achos ble roedd y plant mewn gofal maeth ar gychwyn y gwaith. Roedd **12** o'r plant hyn wedi dychwelyd i fyw gyda rhieni ar ddiwedd ymyrraeth y tîm. Roedd **17** o blant eraill sydd yn cael ei ystyried mewn gofal (PWP) yn fregus ar gychwyn yr ymyrraeth a llwyddwyd i sefydlogi'r cartref i **11** o'r plant yma.

3.8.5. Allan o **29** o blant bu i'r tîm asesu er mwyn ystyried diddymu'r gorchymyn gofal, daeth **12** allan o ofal yn llwyddiannus.

3.8.6. Gweithiodd y Gwasanaeth Adlewyrchu gyda **11** o rieni oedd efo un neu fwy o blant mewn gofal er mwyn eu cefnogi i dorri'r cylch.

3.9. <u>Ceiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain (Unaccompanied Asylum Seeking Children)</u>

3.9.1. Yn mis Tachwedd 2021 fe dderbyniodd pob Awdurdod Lleol yng Nghymru a Lloegr gyfarwyddyd gan y Swyddfa Gartref ynglŷn â lleoli Ceiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain o dan y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol. Nodwyd fod pob awdurdod yn derbyn dyraniad penodol o drosglwyddiadau Ceiswyr Lloches (UASC), wedi ei fodelu ar y boblogaeth plant, y pwysau ar wasanaethau plant a'r boblogaeth ceisiadau lloches maent yn eu cefnogi.

3.9.2. O'r **15** sydd wedi eu derbyn gan Wynedd, mae **4** wedi ei leoli mewn lleoliad maeth yng Ngwynedd a **11** wedi eu lleoli tu allan i'r sir. Ychydig iawn o wybodaeth gefndirol sydd ar gael yn yr achosion hyn ac mae darganfod lleoliadau addas yn heriol o safbwynt eu hoedran, anghenion ieithyddol a diwylliannol ac yn aml iawn y trawma maent wedi ei brofi.

3.9.3. Mae'r gwaith hwn yn ychwanegiad sylweddol i lwythi gwaith y Tîm Ôl 16, lle mae angen gwneud yr un gwaith a phob plentyn arall mewn gofal megis ymweliadau, ond gyda chymhlethdod ychwanegol yn perthyn i'r achosion, y trefniadau cyfieithu ac yn ogystal y gwaith sydd angen ei gwblhau gyda'r Swyddfa Gartref fel rhan o'r ceisiadau "hawl i aros" (Right to Remain).

3.9.4. Mae pob un ohonynt yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Cyngor tra bod y Swyddfa Gartref yn rhoi ystyriaeth i'w achosion unigol. Mae proses penodol i'w ddilyn ac mae angen eiriolwr arbenigol arnynt.

## 4. Gweithrediad y Panel

4.1. <u>Cartref sefydlog</u>

4.1.1. Mae lleoliadau sefydlog yn hanfodol i greu ymdeimlad o berthyn a diogelwch ym mywyd pob plentyn. Pan mae angen lleoli plentyn mewn gofal, dymunir eu cadw yn agos at eu teulu a'u bro. Felly, canolbwyntir ar ddod o hyd i ffyrdd o

letya a gofalu am blant a phobl ifanc yn nes at adref, fel y gallent barhau i fod yn rhan o'u cymuned a chynnal eu rhwydweithiau cymorth. Mae hyn yn cyd-fynd a'r weledigaeth yn Rhaglen bresennol Llywodraeth Cymru 2022-2027, sy'n cynnwys nifer o ymrwymiadau i drawsnewid gwasanaethau plant.

4.1.2. I rhai plant mae dewis i'r Cyngor rhwng lleoli gyda gofalwyr maeth cyffredinol o fewn y sir neu gyda theulu estynedig. Gall y teulu estynedig fod yn byw tu allan i ffiniau Gwynedd. Y canlyniad i'r plentyn felly yw cael ei leoli'n all sirol, ond bod y lleoliad yn parhau o fewn ei deulu estynedig.

4.1.3. Mae **gofal maeth lleol** o'r ansawdd gorau yn annatod. Mae'r Cyngor yn ymfalchïo yn ei allu i gynnig gofal maeth o'r safon uchaf ac mae'n buddsoddi mewn recriwtio, asesu a chofrestru gofalwyr maeth y sir. Ar ddiwedd Mawrth 2023 roedd **71** cartrefi maeth prif ffrwd wedi'u cofrestru gyda Gwasanaeth Maethu Cymru Gwynedd. Mae hyn o'i gymharu â **70** yn 2022.

4.1.4. Darperir cefnogaeth ymarferol a phroffesiynol i'r holl deuluoedd maeth. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd **5%** o'r plant mewn gofal yng Ngwynedd wedi profi 3 neu fwy o symudiadau yn eu lleoliad. Golyga hyn ar sail perfformiad cenedlaethol 2022/23, bod lleoliadau maeth Gwynedd yn cynnig lefel uchel iawn o sefydlogrwydd i blant mewn gofal.

4.1.5. Weithiau mae amgylchiadau unigol yn golygu fod angen i leoli plentyn mewn **lleoliad preswyl**. Mae hyn yn codi o gyfuniad o ffactorau a all gynnwys anghenion cymhleth, ymddygiad heriol, lleoliadau maeth aflwyddiannus yn flaenorol neu angen arbenigol sy'n golygu na fyddai lleoliad mewn amgylchedd teuluol yn addas. Mae'r galw am leoliadau preswyl yn fwy na'r cyflenwad, sy'n her sylweddol i awdurdodau lleol o ran dod o hyd i leoliadau sydd mor agos â phosibl at ardal cartref y plentyn.

4.1.6. Ar hyn o bryd, mae dros **80%** o gartrefi gofal i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu rhedeg gan y sector preifat. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. Yn ystod Tachwedd 2022 cynhaliwyd ymgynghoriad ar ail-gydbwyso'r farchnad fel nad yw awdurdodau lleol yn cael contractio allan i gwmnïau er elw a bod y gofal yn cael ei ddarparu gan y sector cyhoeddus a dielw.

4.1.7. Yn ystod 2022/23, cychwynnwyd ar y gwaith o ystyried datblygiad gwasanaeth preswyl yng Ngwynedd. Penderfynwyd mai'r cysyniad o Gartref Grŵp Bach yw'r opsiwn gorau ar gyfer y sir, ac byddai'n cynnwys y nodweddion allweddol isod:

- Uchafswm o ddau o blant yn lletya gyda'i gilydd.

- Dylid galluogi plant sy'n byw yn mewn Cartref Grwp Bach i integreiddio i'r gymuned leol trwy fynychu sefydliadau addysgol lleol megis ysgolion a cholegau a thrwy ymwneud â phob agwedd ar fywyd cymunedol arferol.
- Plant i dderbyn gofal gan grŵp o weithwyr gofal preswyl, gan sicrhau parhad gofal i'r plant.
- Yn gyffredinol, ni ddylai plant o dan 8 oed gael eu lleoli mewn Cartref Grwp bach, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

4.1.8. Mae Cartrefi Grŵp Bach yn brosiect yng Nghynllun y Cyngor 2023-28. Yn ystod 2023/24 y bwriad yw:

- Penodi Rheolwr Prosiect i arwain ar y gwaith
- Adnabod a phrynu eiddo addas
- Cyflwyno cais am arian cyfalaf y Gronfa Integredig Rhanbarthol.
- Datblygu Datganiad o Bwrpas a pholisïau ar gyfer cofrestru'r uned gyda Arolygaeth Gofal Cymru.

4.2. Iechyd da

4.2.1. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn datgan bod yn rhaid i'r holl blant sy'n derbyn gofal gael asesiad iechyd. Pan fydd plentyn yn dod "mewn i ofal", dylai paediatregydd cymunedol gynnal asesiad iechyd cychwynnol o fewn 28 diwrnod. Roedd **54** o Asesiadau Iechyd Newydd i fod i'w cynnal yn ystod y flwyddyn, gyda **13%** wedi'u cynnal o fewn yr amserlen ofynnol.

4.2.2. Mae disgwyl i blentyn mewn gofal hefyd dderbyn Asesiad Adolygu Iechyd yn rheolaidd (pob 6 mis i blentyn o dan 5 oed a phob blwyddyn i blentyn dros 5). Roedd **282** o Asesiadau Adolygu Iechyd i fod i'w cynnal yn ystod y flwyddyn, gyda **62%** wedi'u cynnal o fewn yr amserlen ofynnol.

4.2.3. Mae plant mewn gofal yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl oherwydd eu hamgylchiadau a phrofiad o drawma. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd **21** o'r **281** Plentyn Mewn Gofal yng Ngwynedd, yn agored i Wasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) gyda **12** arall ar y rhestr yn aros i'w gweld. Mae **100** yn rhagor o blant mewn gofal â phroblemau emosiynol neu ymddygiadol, ac yn derbyn gwasanaethau megis Gweithredu Dros Blant, NSPCC neu wasanaethau Ymgynghori Plant mewn Gofal.

4.2.4. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng ymarferwyr i wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Yn dilyn argymhellion, tynnwyd sylw at waelodlin ar gyfer llesiant iechyd meddwl i'r plant oedd yn dod i ofal. Defnyddiwyd adroddiad gan ofalwyr er mwyn cyfeirio'r plant hynny oedd angen at ymyrraeth gynnar yn ôl yr angen. Mae hyn yn cael ei dreialu yn y Tîm Maethu, a hyd yma mae adborth gan y gofalwyr maeth wedi bod yn gadarnhaol.

4.2.5. Mae cyd-weithio agos rhwng y Tîm-Ôl 16 a’r Gwasanaethau Iechyd i gwblhau atgyfeiriadau amserol i'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau pobl ifanc - "Be Di'r Sgôr" gan weithio gyda gwasanaethau iechyd meddwl oedolion ar gyfer rhai sy'n gadael gofal sydd â mynediad i'r gwasanaethau hyn.

4.2.6. Mae heriau yn y maes niwroddatblygol yn parhau. Ar hyn o bryd mae **21** o blant mewn gofal wedi eu cyfeirio at y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol ac yn aros i gael eu gweld, fodd bynnag, mae nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaeth wedi cynyddu ac felly mae'r rhestr aros bellach dros ddwy flynedd. I ymateb i’r angen cynyddol yn y maes hwn mae’r Cyngor hefyd wedi penodi Cydlynydd Awtistiaeth er mwyn arwain tîm fydd yn gweithio ar raglen i godi ymwybyddiaeth a chynyddu’r gefnogaeth i deuluoedd ac unigolion sy’n byw â chyflwr niwroddatblygol fel awtistiaeth.

4.2.7. Dechreuwyd ar gynllun peilot Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ymwneud â chronfa ddata ar-lein (WCCIS) ym mis Ionawr 2022. Erbyn hyn mae cytundeb yn ei le i ddefnyddio’r gronfa ddata a hyfforddiant ar y gweill. Bydd hyn yn cryfhau’r cysylltiadau Technoleg Gwybodaeth a hwyluso rhannu data a chydweithio rhwng y Cyngor a’r Bwrdd Iechyd.

4.2.8. Mae Nyrsys Plant mewn Gofal wedi bod yn darparu hyfforddiant parhaus i nyrsys ysgol sydd newydd gymhwyso ac Ymwelwyr Iechyd. Mae hyfforddiant hefyd wedi ei ddarparu i wasanaethau ysbyty acíwt er mwyn egluro’r camau i’w cymryd pan fydd plentyn mewn gofal yn cael ei dderbyn i'r ysbyty.

4.3. <u>Addysg dda</u>

4.3.1. Yn mis Medi 2022, yn dilyn cais am grant i dreialu rôl, fe gychwynnodd Pennaeth Rhithiol ar gyfer plant mewn gofal yma yng Ngwynedd.

4.3.2. Diben y rôl yw gweithio gyda’r ysgolion i sicrhau darpariaeth rhagorol ar gyfer plant mewn gofal, gan edrych ar ddeilliannau y plant o gychwyn eu cyfnod yn yr ysgol i Ôl-16. Gwnaed hyn drwy fonitro cynlluniau unigol disgyblion, a sicrhau fod gan yr ysgolion y sgiliau, adnoddau a chefnogaeth orau ar gyfer y dysgwr.

4.3.3. Yn y chwe mis cyntaf mae’r Pennaeth Rhithiol wedi:

- Ymgyfarwyddo gyda systemau newydd, gan gynnal awdit o sefyllfa bresennol Cynlluniau Addysg Bersonol;
- Gwerthuso ceisiadau Grant Bwrsari 2022/2023, gan sicrhau fod yr arian yn cyrraedd yr ysgolion ac yn cael ei wario yn effeithiol;
- Edrych yn ôl ar Geisiadau Grant Plant mewn Gofal dros y ddwy flynedd diwethaf i adnabod hyfforddiant a darpariaeth yn yr ysgolion;

- Cynnal trafodaethau cychwynnol gyda'r Adran Dechnoleg Gwybodaeth i sefydlu trefn ar adrodd ar y wybodaeth sydd yn y Cynlluniau Addysg Bersonol;
- Danfon holiadur i ysgolion er mwyn cael gwybodaeth am gynnydd yn y maes.

4.3.4. I'r dyfodol, bydd y Pennaeth Rhithiol yn gwneud gwaith pellach er mwyn datblygu'r cydweithio rhwng gwasanaethau ar lefel strategol i ddatblygu'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth mae plant mewn gofal yn ei dderbyn.

4.3.5. Oherwydd Covid-19, dros y cyfnod o 2020 i 2022 ni chynhyrchwyd unrhyw ddangosydd CA4 ar gyfer disgyblion oedd yn eistedd y TGAU. Disgwylir y bydd y drefn o adrodd ar ganlyniadau Plant mewn Gofal yn ail-gychwyn yn haf 2023.

4.3.6. Yn ystod y flwyddyn, fe gynhaliwyd hyfforddiant ymarferwyr 'Trawma Gwybodus'. Mae'n seiliedig ar y ddealltwriaeth brofiad o drawma effeithio ar ddatblygiad niwrolegol, biolegol, seicolegol a chymdeithasol unigolyn. Mae'r hyfforddiant yn dangos sut i adnabod arwyddion, symptomau ac effaith eang trawma ac yn ystod 2023/24 bydd sesiynau 'Ysgolion sy'n wybodus o drawma' ar gael i athrawon a staff mewn ysgolion.

4.4. <u>Codi ymwybyddiaeth</u>

4.4.1. Yn dilyn cyfnod Covid-19, mae hyfforddiant Rhiant Corfforaethol i holl Aelodau Etholedig y Cyngor wedi ail-gychwyn. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant mis Chwefror 2023, ac mae trafodaethau ar y gweill er mwyn sicrhau fod mwy o Aelodau yn cymryd mantais o'r hyfforddiant.

4.4.2. Yn dilyn etholiad Llywodraeth Leol mis Mai 2022, cymerwyd y cyfle i ail edrych ar aelodaeth y Panel er mwyn gwneud yn siŵr fod pob maes yn cael eu cynrychioli. Prif Weithredwr y Cyngor sy'n cadeirio'r cyfarfodydd.

## 5. Be fydd y Panel yn ei wneud blwyddyn yma?

5.1. Yn ystod 2023/24 bydd y Panel yn ail-edrych ar y Strategaeth Rhiantu Corfforaethol. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi eu Siarter Rhianta cyn yr haf ac felly byddwn yn gwneud yn siŵr fod bob agwedd o'r Siarter newydd wedi ymgorffori yn y Strategaeth.

5.2. Un o'r prif heriau sy'n ein hwynebu yn ystod 2023/24 yw'r nifer o blant sy'n Geiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain fydd angen cefnogaeth gennym. Mae hyn yn creu pwysau sylweddol ar rhai gwasanaethau ac felly bydd angen ystyried adnodd ychwanegol ar gyfer Tîm Ôl-16.

5.3. Bydd y Panel yn monitro ac yn herio cyflawniad y prosiect Cartrefi Grŵp Bach, sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2023-28.

5.4. Edrychai'r Panel hefyd ar gynnig a datblygu'r pecyn cefnogaeth i rieni maeth, gan ystyried buddiannau fel aelodaeth Canolfan Hamdden am ddim neu ostyngiad treth Cyngor. Y gobaith yw y bydda'r *Cynnig Maethu* yn  annog a denu mwy i fod yn rhieni maeth yng Ngwynedd.